Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Llwybr Rhyd Ddu, Yr Wyddfa

ANODD/LLAFURUS

Trosolwg o'r Daith

Pellter: 12km (7.5 milltir)

Hyd: 6 awr

Math o daith: Yno ac yn ôl

Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru

V-20220323/2111



Gyda'ch cefn tuag at y ffordd fawr, ewch i'r chwith, heibio'r toiledau cyhoeddus, ac i ben pellaf y maes parcio. Ewch trwy'r giât ar y dde a chroesi'r rheilffordd - cofiwch gau'r giatiau ar eich ôl. Dilynwch y trac o'ch blaen.



Ewch i'r dde pan fydd y trac yn fforchio, ac o amgylch y rhwystr cerbydau. Mae'r trac preifat i'r chwith yn arwain at fferm Ffridd Isaf.



Wedi mynd trwy'r giât ger sied fferm fe ddewch at giât arall. Oddi yma bydd y llwybr yn gwyro i'r chwith ac yn dringo'n araf tuag at Pen ar Lôn. Yn y man, fe ddewch at ddwy giât ochr yn ochr.

Ar ôl y giatiau cyfochrog cadwch olwg am faen hir a giât ar eich ochr chwith. Ewch trwy'r giât a dilynwch y llwybr sy'n arwain dros dir brwynog a chorsiog. Yn y man fe ddewch at giât arall gyda chorlannau defaid ar y chwith yr ochr draw.



Yn y man, daw'r llwybr yn fwy serth a garw dan draed ac fe ddewch at adfeilion hen gwt carreg.

O'r adfeilion ymlaen bydd y llwybr yn dringo'n serth ac yn garegog. Ar ôl mynd trwy'r giât nesaf fe fyddwch ar ysgwydd crib Llechog. Dilynwch y llwybr sy'n arwain i fyny i'r dde at y grib.

Dilynwch y llwybr sy'n arwain dros dir agored creigiog.

Yn y man fe ddaw'r ganolfan ymwelwyr a charnedd y copa i'r golwg yn y pellter.

Ewch trwy giât fechan arall mewn wal garreg.

O'r giât diwethaf bydd y llwybr yn parhau ar hyd crib Llechog o amgylch Cwm Clogwyn, cyn dringo'n igam ogam tuag at Fwlch Main. Ar ben uchaf y rhan igam ogam mae'r llwybr yn mynd yn gul iawn gyda chlogwyn serth oddi tanoch. Cymerwch ofal ar y rhan hwn, yn enwedig mewn tywydd garw, a chadwch at y llwybr. Pan fo eira a rhew ar y ddaear mae'r rhan hwn yn troi'n ddringfa beryg, felly dim ond cerddwyr profiadol gyda'r cyfarpar cywir ddylai fentro yma.

Wedi croesi'r llethr fe welwch lwybr y Grib Ddeheuol yn ymuno â'r llwybr o'r dde. Mae'r man lle mae'r ddau lwybr yn cwrdd yn dynodi dechrau Bwlch Main, neu'r Cyfrwy yw'r enw arall arno (cofiwch gadw i'r dde yma ar eich ffordd yn ôl i lawr am Ryd Ddu).

Ymhen ychydig fe fydd Llwybr Watkin yn ymuno â Llwybr Rhyd Ddu o'r dde – mewn man sydd wedi ei farcio â maen hir. Oddi yma bydd y llwybr yn dringo'n serth ac yn greigiog yr holl ffordd i'r copa.